

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Rhagfyr 2016 yn Siambur y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S. H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, T. Thomas a'r Parchedig S. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

89. DECHRAU'R CYFARFOD

Yn absenoldeb Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, dechreuodd y Parchedig Stan Walker y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

90. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), D. Simmons (ymrwymiad arall) W. N. Tasker (yn sâl) a Miss C. L. Williams (ymrwymiad gwaith).

91. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Tachwedd 2016 - Rhifau Cofnod 70-78

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Tachwedd 2016 - Rhifau Cofnod 34-36

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 37-39

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 68-84

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

92. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau y bu iddi hi a'r Dirprwy Faer eu mynychu y mis diwethaf ac yn benodol at roddi'r goleuadau Nadolig ymlaen, y Pantomeim yn dod i'r Dref, Pops y Nadolig, Carolau Nadolig yn Abbeyfield a Peter Pan yn Theatr y Pafiliwn.

Cyfeiriodd y Diprwy Faer at fynychu'r Diwrnod Rhuban Gwyn yn Neuadd y Dref a hefyd at Wasanaeth Nadolig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych.

93. **PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Ymhellach i gofnod rhif 76 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd 2016, gofynnodd y Maer am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd Cynllunio.

Dywedodd Clerc y Dref bod polisi'r Cyngor a gadarnhawyd ar 16eg Tachwedd 2016 yn nodi na ddylai'r Cadeirydd Cynllunio hefyd fod yn Gynghorydd Sir, a phe byddai'r Is-gadeirydd presennol yn cael ei ethol yn Gadeirydd, byddai angen penodi is-gadeirydd newydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James. Esboniodd yr Aelod a'i cynigiodd bod gan yr Aelod ar hyn o bryd swydd ddi-bleidlais ar y Cyngor Sir a chan fod cynsail wedi ei osod trwy benodi Aelod y Cyngor Sir i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, na ddylai'r polisi presennol fod yn berthnasol.

Cynigiwyd gwelliant a'i eilio, y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs E. M. Chard.

Ar ôl cais gan Aelod, *cynhaliwyd pleidlais gudd ac fe **BENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio tan Gyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor.*

94. **EITEM GAN AELOD**

Gofynnodd Aelod am gael adroddiad cynnydd i gyfarfod yn y dyfodol mewn perthynas â swyddfeydd y Cyngor Tref i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn paratoi adroddiad.

95. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

96. **CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD**

Ymhellach i gofnod rhif 80 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2016, croesawodd y Maer Mr Jamie Groves, Mr Richard Weigh a Mr Russell Vaughan i'r cyfarfod i drafod cynigion mewn perthynas â datblygu'r promenâd.

Rhoddodd y swyddogion adroddiad cyfrinachol i'r Aelodau ac ateb eu cwestiynau.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn trefnu cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w gynnal am 6.00pm ar ddydd Gwener 6ed Ionawr i benderfynu ar ymateb y Cyngor.

97. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

98. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: